# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# COFNODION CYFARFOD MISOL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 12eg o Fawrth, 2024** |
| **AMSER** | **7 y.h.** |
| **LLEOLIAD** | **Festri Capel Isa, Llithfaen** |
| **CADEIRYDD** | **Lois Fychan** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **CROESO** |
| | Croesawodd y Cadeirydd Lois Fychan **(LF)** bawb i'r cyfarfod.<br><br>**<u>YN BRESENNOL:</u>**<br><br>Sianelen Pleming **(SP);** Ynyr Ellis **(YE);** Griffith John Leslie Jones **(GJLJ);** Osian Hugh Williams **(OHW);** a'r clerc Gillian Thomas **(GT)** |
| **2.** | **YMDDIHEURIADAU** |
| | **<u>DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU GAN</u>**<br><br>Y Cyng. Jina Gwyrfai **(JG);** Emlyn Williams **(EW);** William Jones **(WJ);** Olwen Roberts **(OR);** Gethin Jones **(GJ)**; |
| **3.** | **CYFLWYNO A MABWYSIADU COFNODION CYFARFOD CHWEFROR 2024** |
| | Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan GJ gyda EW yn eilio. |
| **4.** | **MATERION YN CODI** |
| | **a)** **<u>SP – CRONFA PARTNERIAETH NATUR GWYNEDD / HARDDU LLITHFAEN</u>**<br><br>Adroddodd y clerc bydd unrhyw un sydd ag awydd i ddefnyddio darnau o'r briffordd gyhoeddus gan gynnwys pafinau neu lwybrau i leoli byrddau a chadeiriau, byrddau hysbysebu, cafnau blodau ac ati angen caniatâd gan wasanaeth gwaith stryd y Cyngor.<br><br>Ar ôl i'r ymgeiswyr gwblhau a chyflwyno'r ffurflen berthnasol i'r gwasanaeth gwaith stryd, bydd archwiliwr yr ardal yn cynnal asesiad a tharfu trwydded petaent yn fodlon nad ydi'r eitem yn achosi rhwystr afraid ar y briffordd nac yn aflonyddu ar ddefnyddwyr eraill o'r briffordd e.e. pobl sydd yn defnyddio cadeiriau olwyn neu'r deillion.<br><br>Nid oedd SP yn fodlon gyda'r wybodaeth gan mae bwriad i gynnal cyfarfod oedd wedi ei gynnig yn wreiddiol. Y clerc i yrru'r wybodaeth ymlaen.<br><br>**b)** **<u>LLWYBR – I DRAETH PISTYLL ANGEN SYLW</u>**<br>Adroddodd y clerc ei bod wedi llythyru a Phlas yn Rhiw ond heb dderbyn ymateb<br>Cynigiodd SP iddi ail lythyru a chopio Liz Saville hefyd ANHE<br><br>**c)** **<u>TYLLAU YN Y LON O BENTREF LLITHFAEN LAWR AM GYFEIRIAD PENTRAUCHAF</u>**<br>Gyrrwyd y gwyn ymlaen I Briffyrdd Dwyfor<br><br>**d)** **<u>SP - DWR YN RHEDEG I'R PENTREF I LAWR Y LON O NANT</u>**<br>Gyrrwyd addasiad i'r gwyn gwreiddiol yn adrodd bod y grating mewn lle amhriodol i dderbyn y dŵr ers lledu'r lon. |

| | |
|---|---|
| | e) **SAFLE BWS LLITHFAEN**<br>Derbyniwyd cadarnhad gan y Peiriannydd ei fod wedi gwneud archeb i'r nwyddau i baratoi'r gwaith yn y bythefnos nesaf.<br><br>**f) GJ – CAE CHWARAE PISTYLL LLAWN MWSOG AC YN TYFU YN WYLLT**<br>GA 2402 23995 – Adroddwyd y gwyn ar hunan wasanaeth y Cyngor Sir.<br><br>**g) SP - ARWYDDION PARCIO O FLAEN SIOP, LLITHFAEN**<br>Gyrrwyd cais am ddiweddariad i Uwch Beiriannydd Traffig y Cyngor Sir, roedd o'r farn bod y cynnig am waharddau parcio wrth y siop yn Llithfaen eisoes wedi ei yrru ymlaen i'r adran gyfreithiol i'w hysbysu yn y papur newydd. Credodd bydd y cam yn cael ei weithredu maes o law. O ganlyniad bydd cyfnod ymgynghori o'r Gorchymyn Drafft yn cychwyn o'r cyhoeddiad yma.<br>Adroddodd SP bod y cyfnod ymgynghori wedi hir fynd heibio. Y clerc i'w ddiweddaru.<br><br>**h) OJ – UWCH Y DON PISTYLL BOCS GREAN WEDI MALU**<br>PR 2402 23997 - Trafodwyd y mater gyda swyddog o Briffyrdd Dwyfor oedd yn cynnig bod y cyfnod rhewi wedi mynd heibio am y flwyddyn a chais i ail leoli'r bocs y flwyddyn nesaf. Adroddodd y clerc mae hyn oedd cais yr aelodau a byddent yn disgwyl gweithrediad yn ystod y mis. Derbyniwyd diweddariad drwy hunan wasanaeth y Cyngor yn adrodd bod Swyddog o'r Adran Briffyrdd wedi bod allan yn asesu'r broblem. Nid yw'r mater yn cael ei ystyried fel un brys, ond mae trefniadau mewn lle i wneud y gwaith fel rhan o'u rhaglen waith rhaglenedig. |
| **5.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| | Nid oedd datganiad wedi ei dderbyn |
| **6.** | **DIWEDDARIADAU ASEDAU** |
| | Popeth mewn cyflwr boddhaol |
| **7.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | **Rhif Cais/App Ref: C24/0190/43/DT - Pedwar Gwynt, 2, Pen Y Graig, Llithfaen,**<br>**Dilyn a Darganfod**<br>Estyniad arfaethedig i ochr/blaen yr eiddo.<br>Dim gwrthwynebiad |
| **8.** | **SEDD WAG - LLITHFAEN** |
| | Adroddodd y clerc nad oedd diweddariad wedi ei dderbyn gan mae dydd Gwener y 15fed o Fawrth yw'r dyddiad cau. |
| **9.** | **MEINCIAU LÔN CARNGYWCH A PHISTYLL** |
| | **MEINCIAU PISTYLL**<br><br>PR 2401 20109 - Derbyniwyd ymateb gan y Tîm Tacluso yn adrodd eu bod wedi bod allan yn asesu'r meinciau. Mae trefniadau mewn lle i wneud y gwaith o fewn 7 diwrnod gwaith. |
| **10.** | **Y GANOLFAN, LLITHFAEN** |
| | Derbyniwyd cais am wybodaeth parthed adroddiad tryloywder.<br>Nid oedd gan yr aelodau wybodaeth bellach i'w rannu |

| | |
|---|---|
| **11.** | **DIFFIBLWR I BISTYLL** |
| | Adroddodd y clerc bod swm o £860 wedi ei gasglu o ganlyniad gwaith diflanedig gan GJ a JG i hysbysebu a chodi arian drwy Just Giving. Roedd yr arian wedi ei yrru i gyfrif y Cyngor ond nid yn ymddangos eto ar y gyfriflen. |
| **12.** | **CEISIADAU AM NAWDD** |
| | Cytunodd yr aelodau gefnogi'r mudiadau canlynol: |

| | | |
|---|---|---|
| a) | Cyfeillion Eglwys Carnguwch | 400 |
| b) | Cylch Meithrin Pentreuchaf | 200 |
| c) | Clwb Ffermwyr Ifanc Godre'r Eifl | 200 |
| d) | Ambiwlans awyr Cymru | 500 |
| e) | Hafod Ceiri | 800 |
| f) | Llythyr Llithfaen | 320 |
| g) | Aelwyd Gwrtheyrn | 200 |
| h) | Urdd Llithfaen | 200 |
| i) | Gŵyl Ifan | 700 |
| j) | Cae Chwarae Llithfaen | I'w drafod fis Ebrill |

| | |
|---|---|
| **13.** | **AELODAETH UN LLAIS CYMRU 2024-25** |
| | Adroddodd y clerc bod cost ail ymuno am 24-25 yn £123<br>Cynigiodd OW ac eiliodd GJLJ bod hwn yn wasanaeth pwysig i'r Cyngor. Y clerc i drefnu |
| **14.** | **MATERION LLEOL** |
| | a) Twll yn y ffordd gyferbyn a Thŷ Newydd Llithfaen uwchben y Ganolfan<br>b) Cerbiau anwastad ac yn symud dros ffordd a Rhesdai Pistyll.<br>c) Dwr ar y ffordd uwchlaw mynedfa Gwynus Pistyll<br>d) Arwydd Lon Groes yn parhau i fod angen sylw |
| **15.** | **HYFFORDDIANT** |
| | Rhannodd y clerc restr o hyfforddiant a gynigwyd gan Un Llais Cymru am y mis.<br>Yr aelodau i ddiweddaru'r clerc o'u dymuniadau. |
| **16.** | **GOHEBIAETH A GWYBODAETH** |
| | **a)** **<u>AROLWG I HOLI BARN POBL IFANC YR ARDAL</u>**<br>**b)** **<u>MERFYN HUGHES RALI COFEB LLYN 18/19TH MARCH 2023</u>**<br>**c)** **<u>COEDWIG GENEDLAETHOL I GYMRU</u>**<br>**d)** **<u>SGYRSIAU IECHYD LLEOL</u>** |

| | |
|---|---|
| | e) **NEWYDDLEN MAWRTH GWASANAETH GWYBODAETH I DEULUOEDD GWYNEDD** |
| **17.** | **CYLLID** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| + | **CYFRIF CYFREDOL MAWRTH 2023** | | £ 9,614.09 |
| + | **CYFRIF CADW MAWRTH 2023** | | £ 2,671.02 |
| - | **LLAI SIECIAU HEB YMDDANGOS YN Y BANC** | | £ - |
| + | **GWARGED 2023 / 2024** | | £ 2,812.60 |
| = | **CRONFA'R CYNGOR** | = | **£ 15,097.71** |

**I GYTUNO A DATGANIADAU'R BANC**

**CYFRIF CYFREDOL - 01 o Ionawr i 31 o Ionawr 2023**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | **£ 16,975.57** |
| Derbyniadau | + | £ - |
| Gwariant | - | £ 645.08 |
| Balans Cau | = | **£ 16,330.49** |

**CYFRIF CADW - 07 Ragfyr i 6ef o Chwefror 2023** -

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | **£ 2,703.97** |
| Derbyniadau | + | |
| Gwariant | - | £ - |
| Balans Cau | = | **£ 2,703.97** |
| | = | **£ 19,034.46** |

**LLAI TALIADAU HEB EU CYFLWYNO YN Y BANC** -

| | | | |
|---|---|---|---|
| - | | | |
| - | | | |
| | | = | **£ -** |

**LLAI TALIADAU I'W CYMERADWYO**

| | | | |
|---|---|---|---|
| - | Gillian Thomas | 201296 | £ 293.75 |
| - | Un Llais Cymru | 201306 | £ 123.00 |
| - | Cyfeillion Eglwys Carnguwch | 201297 | £ 400.00 |
| - | Cylch Meithrin Pentreuchaf | 201298 | £ 200.00 |
| - | Clwb Ffermwyr Ifanc Godre'r Eifl | 201299 | £ 200.00 |
| - | Ambiwlans awyr Cymru | 201300 | £ 500.00 |
| - | Hafod Ceiri | 201309 | £ 800.00 |
| - | Llythyr Llithfaen | 201301 | £ 320.00 |
| - | Aelwyd Gwrtheyrn | 201302 | £ 200.00 |
| - | Urdd Llithfaen | 201303 | £ 200.00 |
| - | Gŵyl Ifan | 201308 | £ 700.00 |
| | | = | **£ 3,936.75** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **SYDD YN CYTUNO GYDA CRONFA'R CYNGOR** | = | **£ 15,097.71** |
| - | **LLAI BALANS CRONFA DIFFIBLWR (LL)** | - | **£ 251.90** |
| = | **CYFANSWM CYWIR Y CYFRIFON FELLY** | = | **£ 14,845.81** |

| 18. | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
|---|---|
| | 9fed  Ebrill 2024, Capel Isaf, Llithfaen i Gychwyn am 7 y.h |